Cymeriad aflonydd

Gweledigaeth / ffyddlondeb / teyrngarwch

Tom Nefyn Williams: 1895–1958

Pregethwr ac efengylydd oedd y Parchedig Tom Nefyn Williams. Dechreuodd ar ei waith fel gweinidog yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Daeth ei weinidogaeth i'w therfyn pan oedd yn 63 oed yn 1958. Bu'n gweinidogaethu drwy ddau ryfel byd. Dyma ran o ddyddiadur dychmygol Tom Nefyn.

Mawrth 17eg, 1915 – Dardanelles

Wedi darllen y Beibl eto heddiw – Beibl Mam. Mae arna i ofn am fy mywyd rhag ofn i mi golli fo yn y ffosydd. Mae bywyd mor gyflym. Ac mewn rhyfel mae'n rhaid i ddyn fynd am ei hoedl. Does dim amser i feddwl bron. Mi ydw i'n meddwl y buasai'n well i mi anfon y Beibl i Nhad rhag ofn i rywbeth ddigwydd iddo fo yn nrycin yr heldrin. Rhaid i mi gyfaddef nad ydw i yn cael gafael ar y gobaith y mae'r Beibl yn sôn amdano. Efallai y daw dydd gobaith maes o law.

Mai 9, 1918 – Nefyn

Cerddais at y groes yng nghanol Nefyn heno. Dechreuais sôn am Iesu Grist wrth y bobl – pobl Nefyn oeddan nhw. Ambell un yn deud fy mod i'n dechrau drysu – y rhyfel wedi effeithio ar fy meddwl i meddan nhw. Gofyn wnes i bobl Nefyn oedden nhw wedi ei weld O? Mi ddaeth hen wraig â'i chadair i mi gael sefyll arni er mwyn i'r bobl gael fy ngweld i. "Tomos Williams," meddai hi, "cymerwch hon," meddai gan bwyntio at y gadair i mi sefyll arni. Mi ddywedais wrthyn nhw, "Gyfaill, clyw, mi fuo raid i mi fynd pob cam i Dardanelles, a thrwy uffern Rhyfel Byd, i'w nabod O. Ond a welsoch chi O?

Awst 10, 1926 – Y Tymbl

Mynd â chriw o bobl ifanc y Tymbl i wersylla ar dir oedd yn perthyn i frawd fy nain yn Afonwen, Eifionydd. Cael amser anfarwol. Y plant a'r ieuenctid wedi mwynhau'u hunain. Cael dipyn o hwyl efo Shiwdlyn y ci. Ffefryn gan bawb.

Medi 3, 1937 – Gerlan, Bethesda

Mae yna ryfel arall wedi torri allan. Mae byddinoedd yr Almaen wedi ymosod ar wlad Pwyl. Mi roedd capel y Gerlan yn llawn heddiw.

Mi bregethais y bore yma ar yr adnod, "Yn ôl y dydd y bydd dy nerth." Mi roedd angen nerth ar bawb ohonom heddiw. Roedd yr eglwys eisoes wedi gwrthwynebu y Mesur Milisia, sef yr hawl i gonsgriptio bechgyn ifanc rhwng 20 ac 21 oed. Diwrnod trist iawn yn hanes y ddynoliaeth.

Ebrill 2, 1949 – Edern

Codi'n blygeiniol heddiw. Mynd i Lerpwl, i'r Ysbyty Brenhinol, i weld un o'r aelodau. Cael cyfle amser te i baratoi ar gyfer y plant a'r bobl ifanc. Am i'r plant ddysgu'r pwt yma er mwyn ei adrodd ar ddechrau a diwedd oedfa.

"Cofiaf yr Iesu a'r groes
Dilynaf ef
Byddaf yn garedig wrth bawb
Dywedaf y gwir
Caraf bopeth tlws
Parchaf fywyd
Mynnaf fod yn Gristion
Nerthed Duw fi."

"Pwy bynnag, felly, fydd yn ei ddarostwng ei hun o fod fel y plentyn hwn, dyma'r un sydd fwyaf yn nheyrnas nefoedd."

Mathew 18:4

O Dduw, diolch am bobl
sy'n gweld fod yna waith i'w wneud
ac yn bwrw iddi o ddifri.
Mi fuaswn innau yn hoffi gwneud yr un fath
efo dy help di.
Amen.

"Ac o'i bregethau i gyd
Y fwyaf oedd ei fywyd."

William Morris

Pa mor wir ydi'r geiriau hyn am Tom Nefyn Willams?

Tom Nefyn Williams: 1895–1958